



## Partneriaeth Arloesi yng Nghymru (EIP Wales)

**27** O BROSIECTAU EIPYNG NGHMYRU WEDI EU CYMERADWYO


yn gweithio gyda



**142** O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR

Mae'r prosiect **Porfa i Beillwyr** wedi cwblhau gwerth dau dymor o waith arolygu i ymchwilio a allai newidiadau syml i arferion rheolaeth ar chwe fferm laeth Calon Wen gynyddu niferoedd peillwyr.

Mae'r ffermydd laeth organig eisoes yn defnyddio gwyndonnydd llysieuol a phorfeydd yn llawn meillion sy'n fuddiol i bryfed sy'n peillio. Ond wrth dorri silwair, mae'r holl borfa'n cael ei dorri gan waredu'r holl borthiant ar gyfer y pryfed. Mae'r ffermydd yn edrych ar effaith gadael sribedi o borfa heb eu torri ar hyd ymylon y caeau i gynnig cyflenwad cyson o fwyd i bryfed.




Mae'r siart hwn yn dangos niferoedd cacwn ar fferm New Hall Farm, Y Waun. Mae mwy o weny yn bresennol yn yr ymylon heb eu torri nag yng ngweddill y caeau (fel y gwelir yn y siartiau tafellog mwy). Mae'r gwahanol liwiau yn cyfeirio at wahanol rywogaethau.

Roedd llawer o'r cacwn a ganfuwyd yn yr arolwg yn rhywogaeth tafod hir sydd wedi bod yn diflannu ar y gyfradd gyflymaf yn y DU.

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd erthygl yn trafod 'Technoleg Dal a Storio Carbon -12 ffordd y gallwch chi ddefnyddio'r dechnoleg ar eich fferm'. Gall dal a storio carbon gynnig atebion er mwyn lleihau lefelau CO2 yn yr atmosffer a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r erthygl yn amlinellu gwahanol ymyriadau a sut mae'r rhain yn cyfrannu at ddal carbon ar y fferm.



### E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

GLASWELLT AMLRYWOGAETH



RHEOLI YSGALL



RHEOLI BRWYN



MANTEISION TYFU COED AR FFERMYDD UCHELDIR



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

### Cyrsiau Hyfforddi

| Enw'r cwrs   | Nifer a gwblhaodd y cwrs yn ystod y cyfnod |
|--|--|
| Defnyddio Telehandler ar dir garw  | 25   |
| Defnyddio Plaladdwyr yn ddiogel (PA1 a PA2)                                | 20   |
| Cerbyd Aml-dirwedd eistedd arno  | 14   |
| Dal Gwahaddod  | 13   |
| Cynnal a chadw llif gadwyn, trawstorri, torri a phrosesu coed hyd at 380mm | 12   |

## Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cyngor drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod.



**Mae 64 o unigolion wedi derbyn cyngor un i un drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.**



**Mae 121 o grwpiau wedi derbyn cyngor drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.**

Adborth gan fusnesau'n ymwneud â darpariaeth y cyngor hwn:

*"Ein nod yw pesgi wŷn ar system yn seiliedig ar borfa, a gobeithio y byddwn yn cyflawni hyn gyda'r cyngor a dderbyniwyd gennym er mwyn gwella ein priddoedd a chyfraddau twf y glaswellt."*

## Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth John Goodwin, Tachwedd 2019

Pwnc: Tyfu clôr ar y cyfandir

Gwlad: Sweden



Yn ystod mis Tachwedd, teithiodd John Goodwin i Sweden i gwblhau ail ran ei gyfnewidfa rheolaeth. Mae tyfu clôr yn ddiwydiant cymharol newydd ar ynys Gotland, gyda'r clôr cyntaf yn cael eu canfod yno yn y 1970au. Erbyn hyn, mae nifer o blanhigfeydd clôr wedi cael eu sefydlu ar draws yr ynys

– ar raddfa o ychydig o goed hyd at raddfa a fesurir fesul hectar.

Cafodd John fudd mawr o'i ymweliadau â pherllan clôr masnachol, perllannau clôr gwreiddiol y brifysgol Gŵyl Clôr Gotland 2019.

## Meistr ar Briddoedd

Cynhaliwyd y 4ydd digwyddiad Meistr ar Briddoedd ym mis Hydref. Yn debyg iawn i ddigwyddiadau blaenorol, cafodd 20 o fynychwyr gyfle i elwa o ddysgu sut y byddai modd iddynt wella eu systemau rheoli pridd a lleihau mewnbynnau synthetig gan gynyddu cynhyrchiant a gwella'r amgylchedd naturiol.

Roedd y prif bynciau trafod yn cynnwys:

- Pwysigrwydd rheoli pridd a'i effaith ar dwf cynydu, cynhyrchiant anifeiliaid a'r amgylchedd
- Asesiadau pridd
- Mynegai pridd targed a sut i gyflawni targedau
- pH ac argaeledd maetholion
- Defnydd o wrtaith a defnyddio canllaw gwrtait RB209
- Cywasgiad pridd a'r gwahanol beiriannau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â'r broblem
- Deall a defnyddio Cynllun Rheoli Maetholion

Cafwyd adborth gwych gyda'r mynychwyr yn nodi eu bod wedi datblygu eu dealltwriaeth o reolaeth pridd yn sylweddol er mwyn gwella eu busnesau a'r amgylchedd.

Adborth gan fynychwyr:

*"Cyflwyniad gwych i bwysigrwydd mathau o bridd a'u strwythur."*

*"Rydw i'n bwriadu gwella cyflwr y pridd yn ogystal â mesur a monitro strwythur a chemeg y pridd."*

*"Rydw i wedi dysgu llawer ac mae gen i well dealltwriaeth o ofnion y pridd. Rydw i'n bwriadu newid y ffordd yr ydw i'n rheoli ein tir."*

